

## **Cyngor Cymuned Llanllyfni**

Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanllyfni, Nos Fawrth y 11eg o Hydref 2016.

- 1. Presennol:** Barry Bracegirdle (Cadair), Iwan Lloyd Williams, Justin Davies, Nerys Williams – Penygroes; Hefina MW Roberts, OP Huws, Gwyndaf Roberts – Llanllyfni; Harry Wyn Owen, Sharon Wynne Jones, D Martin Williams – Taysarn; Dafydd Thomas – Nebo; Craig ab Iago – Cynghorydd Sir. Arfon Hughes a Dylan Owen – Hwyluswyr Tai Gwledig; Wyn Williams a Dewi Owen – Cyngor Gwynedd / **Ymddiheuriadau** – Dyfed Edwards – Penygroes a Ffion Jones – Nantlle.
- 2. Gwadd:** swyddogion llwybrau Cyngor Gwynedd Wyn Williams a Dewi Owen. Trafodwyd trefniant ad-dalu gwaith trin llwybrau. Yr Adran yn Cyngor Gwynedd wedi wynebu toriadau o £110,000. Y Swyddog yn datgan eu bod yn sicrhau cefnogaeth ariannol eleni gyda thoriad o 25%, a thoriad arall o 25% y flwyddyn nesaf. Cwestiynwyd beth fyddai dymuniad y Cyngor Cymuned a pa lwybrau oed yn cael eu cysidro yn lwybrau pwysig. Gofynwyd beth yw'r gofionion cyfreithiol o'r anghenion ar lwybrau cyhoeddus – hyn yn disgyn ar y Cyngor Sir. Ble mae torri tyfiant yn y cwestiwn, mae'r mwyafrif yn sylwi arno os nad yw'n cael ei wneud. Oherwydd natur yr ardal hon, byddai'n broses gymleth ofnadwy penderfynu a chlustnodi rhannau o lwybrau i'w tynnu allan o'r rhaglen torri. Rhaid derbyn y newyddion for toriad yn y gyllid, ac ail-edrych ar pa lwybrau sy'n caeu eu torri yn ein cymuned. Llwyluswyr problemus – Trim Track – cwynion yn parhau am y wyneb mwdlyd. Gofynwyd am gopi o'r map llwybrau ar ffurf electroneg. Llwyluswyr o amgylch llyn Cwm Dulyn – Dwr Cymru wedi codi ffens. Awgrymwyd I'r Cyngor Cymuned ymchwilio drwy wefan Cyfoeth Naturiol Cymru I weld os oes cais wedi ei wneud I godi'r ffens. Does gan Cyngor Gwynedd ddim pwerau nes bod llwybr yn cael ei chofrestru, a gall Cyngor Cymuned wneud cais I gofrestru llwybr gyda deg enw cefnogwr. Y Clerc I ysgrifennu at Dwr Cymru I'w hysbysu ein bod yn cysidro gwneud cais I gofrestru'r llwybr gan fod tystiolaeth o ddefnydd. Holi Dwr Cymru pam fod y ffens wedi ei chodi.
- 3. Gwadd:** Arfon Hughes a Dylan Owen. Cafwyd cyflwyniad gan Arfon Hughes – wedi bod yn edrych ar anghenion tai Dyffryn Nantlle a phwyso ar Gyngor Gwynedd a Grwp Cynefin I ystyried yr rhai sydd yn cael eu amddifadu o afforddio tai. Cynefin wedi arhebu safle dros y ffordd I Pant Du gyda hynllun Ymddiriedolaeth Tir. Cynllun posib o ddatblygu'r tir ar gyfer tai – prynu, rhentu canolradd a chynllun morgais rhannu ecwiti efo Grwp Cynefin. Gofynwyd am farn y Cyngor o beth fyddai'r angen. Hwyluswyr yn cynnig rhannu holiadur o gwmpas preswylwyr heb gost i'r Cyngor Cymuned, a'r Cyngor Cymuned yn cael y cyfle I fynebi barn. Pwysig derbyn ymateb i'r arolwg a gweld beth yw'r ANGEN yn Dyffryn Nantlle. (Craig yn cyrraedd y cyfarfod). Amodau – bydd rhaid bod efo'r gallu I brynu a bod yn lleol. Iwan yn codi'r oblygiadau ar niferoedd plant ar yr ysgol gynradd lleol sydd yn lawn yn barod. Gofynwyd am ddiffiniad 'lleol'. OP Huws yn cynnig bod yr holiaduron yn cael eu gyrru mewn dwy don, sef aral Cyngor Cymuned Llanllyfni yn gyntaf, ac ail don I bentrefi sydd yn ffinio ar ardal y Cyngor Cymuned. Rhannwyd ystadegau tai ar werth a rhestr Tai Teg. Rhaid fod yn ofalus iawn I ymateb I'r galw ac ystyried sut mae'r farchnad yn symud yn yr ardal ar hyn o bryd. Y Cyngor Cymuned yn hapus i symud ymlaen a bod copi o'r holiadur (gyda cholofn fechan I fynegi barn) yn cael ei yrru I'r Clerc cyn iddo gael ei ddsbarthu.
- 4. Datgan buddiant personol ynglyn ag unrhyw eitem a drafodir.** Beb yn datgan buddiant.
- 5. Cywirdeb cofnodion cyfarfod Mis Medi.** Ychwanegu ysgrifennu at Tai Cymunedol Gwynedd i gynnal cyfarfod i drafod cydweithio tir Trem yr Wyddfa; Llwybr Nasareth – rhif 85 nid rhif 86.
- 6. Materion yn codi o'r cyn gofnodion.** Adeilad y Quarry Llanllyfni – Cyngor Gwynedd methu gwneud dim ynglyn a'r sefyllf. Plant wedi dechrau mynd I fewn I'r adeilad I chwarae – pryder.
- 7. Cyfarfodydd is-bwyllgor / cydweithio** - Adrodd yn ol i'r Cyngor; Cytundeb llwybrau/mynwentydd. Pwyllgor Cydweithio – Y Cyngor llawn yn cytuno mewn egwyddor i'r Pwyllgor Cydweithio gyfarfod efo Barry Davies I drafod syniad peiriannau parcio yn Dinas Dinlle I ariannu gwasanaethau lleol. Cyfarfod wedi ei drefnu at y 20fed o Hydref I drafod cytundebau torri gwair, ac os oes modd cyfuno tair cytundeb at ei gilydd; OP Huws yn datgan fod trafodaethau yn mynd ymlaen am elfennau cymunedol cynllun Hydro – Ty Mawr West.

8. **Cynllunio** C16/1125/22/LL – Ty Silyn, Penygroes – dymchwel y modurdai presennol er mwyn ymestyn yr adeilad, edrychiad newydd I'r siop, newidiadau mewnol ynghyd a chreu manau parcio ychwanegol - caniatâu; Ymateb Bryn Teg – mater polisi cynllunio.

**9. Gohebiaeth.**

\*Ebost parthed gwasanaeth Sul y Cofio. Ymateb I'r awdur a'I hysbysu fod camgymeriad sylfaenol iawn yn ei ebost, a bod y Cyngor Cymuned wedi bod yn mynychu yn ddi-ffael yn flynyddol, a gosod torch yn flynyddol.

\*Dave Woods – Cylchfan y Goat. Er gwybodaeth.

\*Un Llais: Hysbyseb penodiad Llyfrgell Genedlaethol ac Amgueddfa Cymru; Ymgynghori safonau Cymraeg Mewn Perthynas a'r Gwasanaeth Iechyd; Ymgynghoriad ar Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru; Adroddiad Mike Harriman; Hyfforddiant Cyllid; Bil Treth Trafodaethau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig; Digwyddiad undydd yn y Gogledd I archwilio cydgyngyrchu a ffyrdd o'I roi ar waith; Culture Welsh Language and Communications Committee; Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol; Diwybio Llywodraeth Leol – y diweddaraf; Creu'r Cysylltiadau Gyda Comisiynydd Heddlu a Throsedd; Adroddiad Blynyddol draft Panel Annibynnol Cymru; Ymateb I'r Cynnig ar Uno Ardaloedd Cyfiawnder Lleol yng Nghymru. Gyrrwyd yr ohebiaeth hon ar ebost I'r Cyngorwyr. Dim sylwadau.

\*Newyddlen gan Reolwr Gwyllo Cyflymder Cymunedol. Er gwybodaeth.

\*Ciosgs BT. Gwrthwynebu cau ciosg Nasareth a chiosg Llanllyfni oherwydd diffyg signal ffon symudol.

\*Cymorth Cynllunio Cymru. Er gwybodaeth.

\*Hysbyseb penodiad cyhoeddus Comisiynydd – Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru ac Aelod Cyngor Llywodraethu Tribiwnlys Prisio Cymru. Er gwybodaeth.

10. **Materion Pentrefi.** Nebo – Llyn Cwm Dulyn; Llanllyfni llythrennau wedi diflannu oddi ar arwydd Ger y Llan; arwyddion wedi eu troi – Craig wedi hysbysu Cyngor Gwynedd am hyn; Wal yn Nasareth wedi ei tharo wrth I'r gwair gael ei dorri – Lon Parc, dros y ffordd I Parc (Gwyndaf yn datgan diddordeb).

Talysarn Postyn giat tu ol i Gloddfa Glai, yn mynd lawr am y cae pel droed, wedi pydru ac yn beryglus; Damwain fawr yn Talysarn ar gyffordd Hen Lon allan I'r lon Newydd – gyrru llythyr I Cyngor Gwynedd I wneud cais iddynt ddiogelu'r gyffordd. Wyth I naw damwain wedi digwydd yno dros y chwe mlynedd ddiwethaf. Rhaid gwneud rhywbeth cyn cael damwain angeuol. Drych yn aneffeithiol I'r cyflymder cerbydau yn y lleoliad yma. Penygroes Llywodraethwyr Ysgol Dyffryn Nantlle yn trafod cael giat yn y ffens o amgylch tir yr ysgol; Twll yn y gyli ger 81 Trem y Wyddfa, a sianel wedi torri wrth 54 Trem y Wyddfa.

11. **Llwybrau a Mynwentydd.** Bedd (gyda cyrbiau) wedi suddo yn Gorphwysfa – ochrau llechi a cherrig gwyn. Gan nad oes unrhyw gysylltiadau teuluol mwyach, penderfynwyd y byddai'n rhaid I'r Cyngor lenwi efo rhyw fath o gerrig man er mwyn rhesymau iechyd a diogelwch; Angen gofyn am dderbynebau gwaredu gwastraff gwagio corlenni; Cysylltu gyda'r ymgymerwyr ac unrhyw un fydd yn gwneud gwaith yn y mynwentydd I'w atgoffa o'r rheol fod rhaid mynd a phridd a cherrig o'r fynwent; Cwynion am y golwg ym mynwent yr Eglwys; Parhau I gysylltu ynglyn a phrynu tir wrth Gorphwysfa a hysbysu bod y Cyngor yn gwneud ymholiadau am bryniant gorfodol; golwg tu allan I giat mynwent yr Eglwys yn y cefn.

12. **Materion yn ymwued a'r heddlu.** Disgyblion Ysgol Llanllyfni wedi derbyn hyfforddiant beics. Angen trfnu dyddiad cyflwyno goleuadau.

13. **Materion ariannol.** Ffon/Rhyngwrwyd Clerc £25; Derbynebau Clerc; Antur Nantlle £144. Cymeradwyo.

14. **Ceisiadau am arian.** Eisteddfod Gadeiriol Llanllyfni. Trafod fis Chwefror.

15. **\*Taenlen i'w chymeradwyo a Ffurflen Fonitro Cyllid.** Taliad BACS ad-daliad TAW £1805.15; BDO Hysbysiad Archwiliad. Adolygydd y cyllid, ac ardystiwyd y ffurflen fonitro.